



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf: EN010112)**

**Nodyn yr Awdurdod Archwilio ynghylch Archwiliad Safle Digwmni**

**Archwiliad 1: Amgylchoedd safle'r cais a'r ardal ehangach – 27 Mehefin 2022 i 29 Mehefin 2022**

Mae'r nodyn hwn yn gofnod byr i roi gwybod i'r Ymgeisydd, Partïon â Buddiant ac unrhyw bartïon eraill am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA).

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) Archwiliad Safle Digwmni ar ddydd Llun 27 Mehefin 2022, dydd Mawrth 28 Mehefin 2022 a dydd Mercher 29 Mehefin 2022. Cynhaliwyd yr archwiliadau mewn car neu ar droed, o ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Cynlluniwyd y llwybrau gan ystyried dogfennau cais yr Ymgeisydd ac roedd yr Archwiliad Safle Digwmni wedi galluogi'r Awdurdod Archwilio i weld ac ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal amgylchynol.

Mae golygfannau (VP) y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r rhai hynny a amlygwyd yn naill ai'r Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) [AS-027] neu'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) [AS-029] a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd.

Mae'r Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) yn bwriadu cynnal mwy o Archwiliadau Safle Digwmni, maes o law.

## DIWRNOD 1 – Dydd Llun 27 Mehefin 2022


Tywydd: Heulog

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Jonathan Hockley (Arweinydd) ac Alex Hutson. Gwnaethant ymweld â **VP 37** (Cylch Cerrig Cefn Coch), **VP 40** (Uwchben Capelulo – Llwybr Gogledd Cymru) a **VP 12** (Mynydd y Dref) y SLVIA, yn y drefn honno, gan gerdded rhyngddynt. Defnyddiwyd ffotogyfosodiadau'r Ymgeisydd i'w cynorthwyo i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn. Dangosir y llwybr a gerddasant yn y ddelwedd<sup>1</sup> isod.

---

<sup>1</sup> Mae'r holl ddelweddau'n cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 © Mapbox © OpenStreetMap



### DIWRNOD 2 – Dydd Mawrth 28 Mehefin 2022

Tywydd: Cymylog, gwyntog gydag ysbeidiau o law

Gwelededd: Rhesymol

Mynychwyd yr archwiliad gan holl aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, ynghyd â Jake Stephens, y Rheolwr Achos. Gwnaethant ymweld â **VP 14** (Llwybr Arfordir Cymru ger Penrhyn (Traeth yr Ora), **VP 4** (Pentir Moelfre wrth y Cerflun), **VP 16** (Bay View Road ym Mhenllech), **VP 5** (Traeth Coch), **VP 6** (Bwrdd Arthur – i'r gogledd o'r Piler Triongli), **VP 7** (Pwynt Penmon – i'r gogledd-ddwyrain o'r ardal barcio), **VP 28** (Cilfan Barcio Trwyn y Penrhyn), **VP 8** (Biwmares – Llwybr Arfordir Cymru), **VP 9** (Pier Bangor – Pen Deheuol), **VP 17** (Teras Castell Penrhyn), **VP 11** (Llanfairfechan), **VP 13** (Pen y Gogarth – Cyfadeilad ger y copa), **VP 15** (Pen y Gogarth – Caffi), **VP 20** (Bryn Euryn), **VP 29** (Promenâd Bae Colwyn), **VP 21** (Mynydd Marian) a **VP 22** (Promenâd Abergele) y SLVIA, yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus i gyrraedd y golygfannau pan oedd angen. Defnyddiwyd ffotogyfosodiadau'r Ymgeisydd i helpu i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn.


### DIWRNOD 3 – Dydd Mercher 29 Mehefin 2022

Tywydd: Heulog yn y bore, cymylau a glaw yn hwyr yn y bore ac yn gynnar yn y prynhawn, gydag ysbeidiau heulog yn hwyr yn y prynhawn


Gwelededd: Cymysg, rhesymol i raddau helaeth

Mynychwyd yr archwiliad gan holl aelodau panel yr Awdurdod Archwilio. Yn gyntaf, ymwelodd yr Awdurdod Archwilio â **VP 59** (Promenâd Llandudno - Llithrfa Bad Achub) a **VP 18** (Pwll Padlo Llandudno) y SLVIA. Defnyddiwyd ffotogyfosodiadau'r Ymgeisydd i helpu i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn.



Yn ail, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i dir blaen y Rhyl i weld ardal arfaethedig glanfa'r llwybr ceblau ('Adran A'), rhan o goridor y llwybr ceblau ar y tir (rhan o 'Adran B'), yr ardal ar gyfer cyfadeilad adeiladu arfaethedig a'r amgylchoedd cyffredinol, ar droed. Cerddodd yr Awdurdod Archwilio ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys y rhai hynny ar hyd y promenâd a thrwy Glwb Golff y Rhyl. Dangosir y llwybr a gerddwyd yn y ddelwedd isod.



Yn drydydd, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i dde-ddwyrain y Rhyl i weld rhannau eraill o goridor y llwybr ceblau (rhan o 'Adran C') ar droed. Dangosir y llwybr a gerddwyd yn y ddelwedd isod. Nodwyd gan yr Awdurdod Archwilio bod yr hawl dramwy gyhoeddus a amlygwyd gan yr Ymgeisydd fel DE/206/3 wedi'i rhwystro / gordyfu yn y man a ddangosir gan y saeth goch yn y ddelwedd isod, a ataliodd yr Awdurdod Archwilio rhag mynd heibio trwy ran o 'Adran C'. Edrychodd yr Awdurdod Archwilio ar olygfeydd tuag at safle'r cais o gyffiniau adeiladau rhestredig yn Fferm Bryn Cwnin i gael gwerthfawrogiad o'r asedau treftadaeth hyn a'u lleoliadau.



Yn bedwerydd, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i Barc Busnes Llanellwy i weld rhannau eraill o goridor y llwybr ceblau (rhannau o 'Adran C', 'Adran F' ac 'Adran G') a'r safle arfaethedig ar gyfer yr is-orsaf ar y tir, ar droed. Dangosir y llwybrau a gerddwyd yn y delweddau isod.



Ymwelodd yr Awdurdod Archwilio â **VP 1** (Llwybr Ceffylau ger Faenol-Broper), **VP 2** (Parc Busnes Llanelwy), **VP 3** (Glascoed Rd), **VP 4** (yr A55), a **VP 5** (Minor Rd, Groesffordd) y LVIA. Defnyddiwyd ffotogyfosodiadau'r Ymgeisydd i helpu i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn lle'r oedd yn bosibl. Nododd yr Awdurdod Archwilio fod y golygfeydd o **VP 3** (Glascoed Rd) a **VP 4** (yr A55) wedi'u rhwystro i raddau helaeth o ganlyniad i dwf gwrychoedd. Roedd yr Awdurdod Archwilio yn gallu gweld golygfa debyg i honno o VP 4 (yr A55) bellter byr oddi wrth leoliad yr olygfan.

Edrychodd yr Awdurdod Archwilio ar olygfeydd tuag at safle'r cais o gyffiniau adeilad rhestredig yn Faenol-Broper i gael gwerthfawrogiad o'r ased treftadaeth hwn a'i leoliad. Aeth yr Awdurdod Archwilio i mewn i warchodfa natur Glascoed, sydd ar gael i'r cyhoedd, i weld y safle o'r lleoliad hwn. Gwelodd yr Awdurdod Archwilio is-orsaf ar y tir Gwynt y Môr a phwynt cysylltu'r Grid Cenedlaethol, yn ogystal ag is-orsaf ar y tir Burbo Bank. Gwelodd yr Awdurdod Archwilio Amlogsgfa a Pharc Coffa Sir Ddinbych a'u perthynas â'u hamgylchoedd a safle'r cais.

Cerddwyd ar hyd llwybr troed DE/105/7 i gael gwerthfawrogiad o'r llwybr ceblau arfaethedig o amgylch y cysylltiadau rhwng y safle ac is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol ac i weld is-orsaf y Grid Cenedlaethol o'r gorllewin.

### **Diwedd Archwiliad Safle Digwmni 1**